| Diweddariad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Health and Social Care Committee update |
|---|---|
| Annwyl gyfaill, | Dear colleague |
| **Anghydraddoldebau iechyd meddwl** | **Mental health inequalities** |
| Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar 19 Rhagfyr 2022. Mae'r adroddiad llawn a chrynodeb ohono ar gael ar y wefan yr ymchwiliad ar ffurfiau PDF, Word ac HTML. | We published our report on 19 December 2022. The full report and a summary are available on the inquiry webpage as pdf, word and web versions. |
| Rydym hefyd wedi cyhoeddi crynodeb o safbwyntiau ein grŵp cynghori a oedd yn cynnwys pobl â phrofiad byw gwahanol a rannwyd â ni yn ystod yr ymchwiliad. | We've also published a summary of the views our online advisory group comprised of people with different lived experiences shared with us during the inquiry. |
| Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ymateb i'n hargymhellion erbyn dechrau mis Chwefror. | The Welsh Government is due to respond to our recommendations by early February. |
| **Canserau Gynaecolegol**<br>Ym mis Tachwedd gwnaethom lansio ymgynghoriad newydd ar ganserau gynaecolegol. | **Gynaecological Cancers**<br>In November we launched a new consultation on gynaecological cancers. |
| Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 13 Ionawr 2023; mae gwybodaeth am sut i ymateb ar gael ar ein gwefan. | The closing date for responses is 13 January 2023; information about how to respond can be found on our website. |
| **Materion sy'n wynebu'r sector gofal cymdeithasol**<br>Ar 30 Tachwedd, gwnaethom gynnal sesiwn sganio'r gorwel gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i drafod materion sy'n wynebu'r sector gofal cymdeithasol. | **Issues facing the social care sector**<br>On 30 November we held a horizon-scanning session with Care Inspectorate Wales to discuss issues facing the social care sector. |

| | |
|---|---|
| Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod ar gael ar ein gwefan, neu gallwch wylio'r sesiwn ar Senedd.tv.<br><br>**Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol**<br><br>Fel rhan o'n gwaith parhaus ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, gwnaethom ymweld â Phrifysgol De Cymru ar 8 Rhagfyr 2022. Roedd yn gyfle i ni glywed yn uniongyrchol gan fyfyrwyr, staff ac ymchwilwyr am y materion sydd o bwys iddynt a gweld y cyfleusterau, a bydd yr ymweliad hefyd yn helpu i lywio ein sesiwn graffu gyda'r Prif Swyddog Nyrsio ar 26 Ionawr.<br><br>(Insert visit photo – possible)<br><br>**Gwasanaethau endosgopi: ymchwiliad dilynol**<br><br>Caeodd ein hymgynghoriad ar wasanaethau endosgopi ar 13 Rhagfyr 2022. Diolch i bawb a gyflwynodd dystiolaeth. Byddwn yn dechrau cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn gynnar yn 2023.<br><br>**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24**<br>Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24 ar 13 Rhagfyr 2022. Byddwn yn craffu ar y Gweinidogion sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol ynglŷn â'r gyllideb ddrafft ddydd Mercher 11 Ionawr. Caiff y sesiwn ei darlledu'n fyw ar | A transcript of the meeting can be found on our website or you can watch on Senedd.tv.<br><br>Following the meeting, we wrote to the Deputy Minister for Social Services to highlight the clear and stark messages around the fragility of the social care sector.<br><br>**Health and social care workforce**<br><br>As part of our ongoing work on the health and social care workforce, we visited the University of South Wales on 8 December 2022. As well as giving us a chance to hear directly from students, staff and researchers about the issues that matter to them and see the facilities, the visit will help inform our scrutiny session with the Chief Nursing Officer on 26 January.<br><br>(Insert visit photo – possible)<br><br>**Endoscopy services: follow up inquiry**<br><br>Our consultation on Endoscopy services closed on 13 December 2022. Thank you to everyone that submitted evidence. We will begin holding oral evidence sessions in early 2023.<br><br>**Welsh Government's draft budget 2023-24**<br>The Welsh Government published its draft budget for 2023-24 on 13 December. We'll be scrutinising the Ministers with responsibility for health and social care on the draft budget on Wednesday 11 January. The session will |

| | |
|---|---|
| www.senedd.tv, a bydd ar gael ar alw wedyn.<br><br>**Gwaith arall y Pwyllgor**<br><br>Gallwch hefyd weld manylion am waith y Pwyllgor hyd yma a'i flaenraglen waith ar ein gwefan.<br><br>Gallwch hefyd gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor drwy ein dilyn ar Twitter yn @seneddiechyd.<br><br>Rydych yn cael yr e-bost hwn gan eich bod wedi gofyn yn flaenorol am gael gwybod am ymchwiliadau newydd y Pwyllgor.<br><br>Os nad ydych am gael yr hysbysiadau hyn mwyach, rhowch wybod inni drwy anfon neges at: SeneddIechyd@senedd.cymru. | be broadcast live on www.senedd.tv, and available on demand afterwards.<br><br>**Other Committee activity**<br><br>You can find details of the Committee's work to date, and its upcoming work programme on our website.<br><br>You can also keep up with the Committee's work by following us on Twitter at @seneddhealth.<br><br>You are receiving this email as you have previously asked to be notified of new Committee inquiries.<br><br>If you no longer wish to receive these notifications, please let us know at SeneddHealth@senedd.wales. |